# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod rhwng Cenedlaethau

## 4 Hydref 2021

### MS Teams

## Yn bresennol

Delyth Jewell AS – Cadeirydd

Peredur Owen Griffiths AS – Is-gadeirydd

Josh Hayman, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Ysgrifenyddiaeth

Becky Ricketts, NUS Cymru

Carole Philips, Kidscape

Dr Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor

Dereck Roberts, NPC Cymru

Dan Townsend, Youth Cymru

Dr Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe

Eleri Williams, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Gino Parisi, BIP Aneurin Bevan

Dr Liz Jones, Prifysgol Abertawe

Michelle Lewis, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mirain Llwyd Roberts, Cyngor Gwynedd

Nia Richards, Tybed

Nina Finnigan, Strategaeth Bryncynon

Philippe Demougin, Hafod

Pheobe Brown, Caffi Atgyweirio Cymru

Rhys Jackson, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Sharon Ford, Amgueddfa Cymru

Steff Green, Prifysgol Abertawe

## Ymddiheuriadau

Altaf Hussain AS, Is-gadeirydd
Lynda Wallis, Senedd Pobl Hŷn Cymru
Laraine Bruce
Stephen Burke, United for All Ages

## 1. Croeso a chyflwyniadau

## 2. Adferiad ar ôl Covid-19

Agorodd DJ y drafodaeth ynglŷn â sut y gall y grŵp ddylanwadu ar waith yn ymwneud â'r adferiad ar ôl Covid-19. Gofynnodd i'r grŵp am awgrymiadau a syniadau y gellid eu cyflwyno i Weinidogion perthnasol.

Cododd DR faterion yn ymwneud â chyflwyno pasbort Covid a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r broses – cyfeiriodd hefyd at lefel uchel yr achosion presennol ac at lefel uchel y derbyniadau i ysbyty.

Cododd NF faterion yn ymwneud â chyllid i fudiadau gwirfoddol sydd eisiau sefydlu prosiectau pontio'r cenedlaethau – mae llawer o gyllid wedi bod ar gael yn ystod y pandemig i gefnogi pobl, ond rhaid cynnal hynny yn y dyfodol. Dywedodd fod unigrwydd wedi'i amlygu yn ystod y pandemig, ac y bydd yn parhau oni bai fod cymunedau'n gallu cefnogi pobl i ddod allan o'r unigrwydd. Dywedodd DJ y gallai'r grŵp wneud cais am wybodaeth ynglŷn â pha mor hir y bydd cyllid ar gael.

Cyfeiriodd BR at yr unigrwydd sy'n wynebu myfyrwyr sydd wedi bod yn treulio llawer o amser yn eu llety myfyrwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond gwelwyd enghreifftiau da o brosiectau cymunedol yn cael eu rhedeg gan brifysgolion ac undebau myfyrwyr. Dywedodd fod myfyrwyr wedi bod yn awyddus i gefnogi eu cymunedau. Awgrymodd DJ y gallem greu cronfa ddata yn cynnwys ymarfer da a gofynnodd a allai BR anfon unrhyw enghreifftiau sydd ganddi.

Dywedodd DR fod cyllid yn cael ei ddarparu i grwpiau 50+ ar gyfer eleni a bod y grwpiau hyn yn arfer cynnal digwyddiadau pontio'r cenedlaethau llwyddiannus. Byddai'n beth da pe gellid ymestyn y cyllid hwn ymhellach na'r flwyddyn hon.

Cyfeiriodd CHJ at un o'r argymhellion yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar unigrwydd yn ymwneud â chyllid sbarduno ar gyfer gwaith pontio'r cenedlaethau, a dywedodd y byddai'n syniad da atgoffa'r Gweinidogion ynglŷn â hyn. Dylai fod ar gyfer yr adferiad ar ôl Covid a dylai gael ei gynnal ar ôl hynny.

Gofynnodd SG a allem weithio er mwyn dylanwadu ar unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill yn barod ar gyfer yr adferiad ar ôl Covid. Cyfeiriodd hefyd at ddiogelu'r awgrymiadau hyn at y dyfodol ac edrych beth allai ddigwydd mewn unrhyw bandemig arall yn y dyfodol. Cyfeiriodd at brosiect tai sy'n ystyried creu 'swigod cartref' os bydd angen cyfnod clo arall yn y dyfodol. Mynegodd bryder y byddai cartrefi gofal yn wynebu cyfyngiadau symud eto os na fydd hyn yn cael sylw yn y dyfodol. Awgrymodd DJ y gallem edrych ar ffyrdd o gynnwys ysgolion ac undebau myfyrwyr yn y mathau hyn o gymunedau. Mae cyfle da â'r llythyr hwn i geisio cyfrannu tuag at awgrymiadau.

**GWEITHREDU: Drafftio llythyr i Weinidogion yn ymwneud â dull yn seiliedig ar bontio'r cenedlaethau yn ystod yr Adferiad ar ôl Covid-19**

## 3. Cynllun Gweithredu Drafft

Trafododd JH y broses o greu'r cynllun gweithredu, gan egluro bod croeso i aelodau o'r grŵp gymryd yr awenau ar feysydd blaenoriaeth y cynllun. Gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag ef os yw hyn yn rhywbeth y byddent yn hoffi ei wneud. Bydd yn anfon ebost yn dilyn y cyfarfod, i egluro'r pwynt hwn eto. Gofynnodd JH i'r aelodau gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw bwyntiau eraill yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu.

Dywedodd DJ wrth y grŵp y gall yr aelodau wneud cyn lleied, neu gyn gymaint ag y dymunant o waith ar gyfer pob maes blaenoriaeth.

## 4. Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Dywedodd DJ fod y grŵp wedi cael trafodaeth yn y gorffennol ynglŷn â chynnwys mwy o bobl ifanc a phobl sy'n cynrychioli pobl ifanc yn y grŵp. Gofynnodd am unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r grŵp ymgysylltu â phobl ifanc.

Gofynnodd CHJ a oedd cais wedi'i anfon at yr Urdd a gofynnodd MLlR a oedd y grŵp wedi bod mewn cysylltiad â mudiad y Ffermwyr Ifanc. Gwnaethpwyd awgrymiadau hefyd ynglŷn ag ymgysylltu â'r Senedd Ieuenctid, fforymau ieuenctid ym mhob ardal awdurdod lleol, adrannau ieuenctid pleidiau gwleidyddol ac undebau llafur.

Awgrymodd BR y gallai'r grŵp fabwysiadu strategaeth i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â phontio'r cenedlaethau, o ystyried rhai o'r stereoteipiau sy'n bodoli yn y gymuned ehangach – er enghraifft, syniadau ynglŷn â sut y mae pobl hŷn a phobl iau yn gweithio – mae angen i ni chwilio am ffyrdd o chwalu'r rhwystrau hyn. Awgrymodd fod edrych ar ddysgu a sgiliau gydol oes yn ffordd dda o chwalu rhwystrau. Gall ail-lunio'r trafodaethau i gyfleu'r ffaith ein bod i gyd gyda'n gilydd fod yn ffordd dda o symud ymlaen.

Cyfeiriodd MLlR at brosiectau gan Undeb y Myfyrwyr ym Mangor sy'n cynnwys elfen o bontio'r cenedlaethau wrth weithio gyda'r gymuned, gan gynnwys partïon te ac arwyr digidol.

Awgrymodd SF y gall amgueddfeydd a threftadaeth fod yn fachyn defnyddiol i geisio dod â chenedlaethau at ei gilydd.

Awgrymodd CHJ ein bod yn dod o hyd i unigolion ifanc i weithio ym mhob ardal a nodwyd.

Dywedodd DT fod angen ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd – mae angen gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.

Cyfeiriodd BR hefyd at bwysigrwydd undod rhwng cenedlaethau mewn gwahanol grwpiau, ac roedd y digwyddiad Betty Campbell yn enghraifft o gael digwyddiadau undod sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi treftadaeth croestoriadol.

Cyfeiriodd DR at waith y bydd NPC yn ei wneud er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r naratifau sy'n ymwneud â thegwch rhwng cenedlaethau – byddant yn cynnal digwyddiad yn ymwneud ag undod rhwng cenedlaethau ymhen ychydig wythnosau. Dywedodd fod cynnwys ysgolion yn syniad da.

Awgrymodd DJ y gallem hefyd ystyried mynd i'r afael â materion ar wahân i'r blaenoriaethau a nodwyd – a allai Paneli Dinasyddion ystyried materion fel newid hinsawdd a threthiant?

Cyfeiriodd DM at waith yr oedd wedi ei wneud â myfyrwyr a oedd yn gwneud gwaith gwirfoddol, gan drafod ffyrdd o ymgysylltu â phobl hŷn a siarad â phobl hŷn gyda'r rhai hynny a oedd yn teimlo'n nerfus ynglŷn â gwneud hyn. Gofynnodd a allem ddod â phobl hŷn a phobl iau at ei gilydd i rannu storïau am fater arbennig er mwyn dangos bod rhai

pethau sy’n uno cenedlaethau. Awgrymodd y gellid defnyddio unrhyw themâu – gellid gwneud hyn o’r gwaelod i fyny. Awgrymodd CHJ y gallem ddangos y rhain mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cyfeiriodd NR at waith y mae hi’n ei wneud gydag ysgol gynradd a grŵp o bobl hŷn yn y gymuned gyda phensaer i ddod at ei gilydd a dysgu/sgwrsio gyda’i gilydd ynglŷn â phethau sy’n peri pryder iddynt ac yn gwneud iddynt boeni. Maent wedi sylweddoli bod plant wedi colli cysylltiad â’u cymunedau i raddau, a’u bod yn byw rhan helaeth o’u bywydau ar-lein.

Awgrymodd DJ y dylem geisio cynnwys pobl mewn trafodaethau, ac y dylem hefyd geisio cael pobl i rannu eu storïau mewn dulliau amrywiol.

Rhannodd NF ei phrofiadau o weithio gyda phreswylwyr cartref gofal er mwyn ceisio sicrhau bod gwasanaethau’n diwallu eu hanghenion – mewn un cartref gofal roeddent yn dod â myfyrwyr i mewn o ysgol Gymraeg. Roeddent wedi sylweddoli bod y preswylwyr yn siarad Cymraeg ond nad oeddent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith. Roedd hefyd yn gweithio gydag eglwys leol i greu ffilm yn ymwneud â dod â phobl iau a phobl hŷn at ei gilydd.

Crynhodd DJ drwy ddweud bod angen i ni gasglu enghreifftiau o arferion da, edrych ar y syniad o ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried paneli dinasyddion ar gyfer pontio’r cenedlaethau, ac ystyried gofyn i rywun wneud rhywbeth i ddathlu storïau pobl.

Cyfeiriodd BR at y cyfle i wneud ymchwil er mwyn canfod beth yw’r prif broblemau i wahanol genedlaethau, ac edrych ar y problemau tebyg neu’r rhai sy’n wahanol iawn – ac edrych sut y mae’r rhain yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd.

Awgrymodd DM y gallem wneud arolwg byr, na fyddai angen cyllid ar ei gyfer, ond y byddai angen iddo fynd drwy gymeradwyaeth foesegol. I fynd i lawr y trywydd storïau, byddai angen cyllid ymchwil. Awgrymodd CHJ y dylem edrych ar yr arbenigedd sydd gennym yn y grŵp ac a allem drafod beth y gallai’r arolwg ei wneud a beth y gallai ei gyflawni.

## 5. Unrhyw fater arall

Dywedodd MLlR fod Lleol yn S4C wedi cysylltu â hi ynglŷn â phrosiectau hanes sy’n pontio’r cenedlaethau – mae ganddynt ddiddordeb mewn gwneud mwy ledled Cymru, a chlywed am fwy o syniadau, ac mae arnynt eisiau i lawer o’u cynnwys fod yn seiliedig ar bontio’r cenedlaethau. Dywedodd hefyd fod dyddiadau Wythnos Pontio’r Cenedlaethau wedi’u newid i wythnos olaf mis Ebrill (25-29).

Dywedodd LJ ei bod yn awyddus i ddal i weithio gyda MLlR ar fater hanes lleol yn Nhroedrhiw’r-fuwch – mae wedi bod yn ceisio edrych ar ffyrdd o archifo hanes ynghyd ag adfer cofebau rhyfel yn y pentref – mae’n brosiect pontio’r cenedlaethau sy’n mynd rhagddo.

Awgrymodd SG y dylem gynnwys un o’r diffiniadau mwy ffurfiol o bontio’r cenedlaethau fel rhan o’r cynllun gweithredu.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Rhagfyr**

## Y diwedd